# Gwaedu’n drwm

Cardiau chwarae rôl: **Gwaedu’n drwm**

## Beth sy’n digwydd?

Mae’n hwyr fore Sul ac mae dau unigolyn ifanc yn helpu eu rhiant i goginio cinio dydd Sul. Mae llawer i’w wneud felly mae’r tri ohonynt yn gweithio’n galed i baratoi’r prif gwrs a phwdin.

Cardiau chwarae rôl:
**Gwaedu’n drwm**

## Syniadau ar gyfer llwyfannu

- Crëwch olygfa o’r gegin drwy aildrefnu byrddau i’w defnyddio fel cownteri.
- Dechreuwch gyda phawb yn brysur gyda’u tasgau.
- Gwnewch gyllell gardbord syml i’r rhiant ei defnyddio.
- Gwnewch yn siŵr bod gennych grysau T a llieiniau sychu llestri ar un cownter neu eu hongian ar gadair.

## Rolau

- Isod ceir amrywiaeth o rolau – mewn grwpiau bach, mae pob un yn dewis cymeriad i’w chwarae. Gwnewch yn siŵr bod pob un yn y grŵp yn cael cyfle i chwarae rôl pob cymeriad. Neu, darllenwch y senario fel stori.
- Treuliwch amser yn mynd i mewn ac allan o’r rôl.

## Sesiwn ôl-drafod

- Wedyn, treuliwch ychydig o amser yn trafod y stori. Gallech feddwl am y canlynol:
- Beth ddigwyddodd i’r un a oedd yn gwaedu’n drwm? Pa arwyddion o waedu’n drwm a welwyd?
- Sut wnaeth y cynorthwyydd eu helpu?
- Beth wnaeth y gwyliwr? Beth allent ei wneud yn y dyfodol i fod yn gynorthwywr?

---

Cardiau chwarae rôl: **Gwaedu’n drwm**

## Rhiant

Mae’r unigolyn hwn yn paratoi cinio dydd Sul ar gyfer ei deulu. Mae’n hogi cyllell cegin. Mae un o’r plant yn gofyn a yw’n amser rhoi’r prif bryd yn y popty.

Mae hynny’n tynnu ei sylw. Mae’n colli ei le ar y miniwr ac yn torri ei fraich â’r gyllell. Mae gwaed yn llifo’n drwm allan o’r clwyf.

---

Cardiau chwarae rôl: **Gwaedu’n drwm**

## Helpwr

Mae’r unigolyn hwn yn helpu ei riant i baratoi cinio dydd Sul.

Mae’n gofyn a yw’n amser rhoi’r prif bryd yn y popty. Mae’r rhiant yn llithro ac mae’n torri drwy groen ei fraich. Mae’n edrych o gwmpas ac yn cofio bod lliain sychu llestri glân yn y drôr. Mae’n gafael ynddo ac yn pwyso’n galed ar y clwyf sy’n gwaedu.

---

Cardiau chwarae rôl: **Gwaedu’n drwm**

## Gwyliwr

Mae’r unigolyn hwn hefyd yn helpu ei riant i baratoi cinio dydd Sul.

Mae’n golchi ffrwythau i wneud pwdin. Mae’n brysur yn y gegin. Mae’n troi o gwmpas wrth glywed ei riant yn gwaeddi mewn poen.

Mae’n gweld ei fod wedi torri drwy ei groen. Mae’n edrych yn ddrwg ond mae ei frawd/chwaer wedi gweithredu’n gyflym iawn.

© Y Groes Goch Brydeinig 2019. Pob llun © Y Groes Goch Brydeinig 2019 oni nodir yn wahanol.
Mae’r adnodd hwn a deunyddiau addysgol eraill am ddim ar gael yn www.redcross.org.uk/education
Mae Cymdeithas y Groes Goch Brydeinig yn elusen wedi’i chofrestru yng Nghymru a Lloegr (220949) a’r Alban (SCO37738).

CYMORTH CYNTAF

Nerth caredigrwydd